# Grantiau mwy sydd bellach ar gael o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth

15/05/2020

Rydym bellach yn croesawu ceisiadau am grantiau mwy i dalu costau yn ystod argyfwng coronafeirws (COVID-19).

Mae'r lefel newydd o grantiau'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth yn werth £50,000-£250,000. Gan ddefnyddio arian na fyddai'n bosibl heb y Loteri Genedlaethol, mae'r grantiau hyn ar gael i holl grantïon presennol a gorffennol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a gellir eu defnyddio i dalu am gostau hanfodol am hyd at bedwar mis.

Mae'r grantiau newydd yn ychwanegol i'r rhai presennol y Gronfa Argyfwng Treftadaeth o £3,000-£50,000 a lansiwyd ganol mis Ebrill wrth i'r argyfwng ddechrau datblygu.

Rydym yn bwriadu i'r grantiau mwy hyn helpu sefydliadau yn y sector treftadaeth i fynd i'r afael â risgiau uniongyrchol, dod yn fwy sefydlog a gweithio tuag at adferiad tymor hwy ar ôl yr argyfwng.

Dywedodd Ros Kerslake, Prif Swyddog Gweithredol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Mae argyfwng coronafeirws (COVID-19) yn cael effaith arbennig o niweidiol ar y sector treftadaeth, mewn cyfnod lle y byddai llawer o atyniadau yn gwneud arian drwy groesawu ymwelwyr o'r DU a thramor. Rydym yn parhau i wrando ar sefydliadau treftadaeth ac yn addasu ein hymateb i'w hanghenion, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r lefel uwch yma o gyllid.

"Er nad ydym o bosibl yn debygol o allu ariannu popeth, rydym yn annog sefydliadau i gysylltu a gwneud cais am gyllid.

"Mae treftadaeth yn hynod werthfawr i bobl, i gymunedau ac i'r economi. Rydym am gefnogi sefydliadau i fynd i'r afael â risgiau uniongyrchol, dod yn fwy sefydlog a gweithio tuag at adferiad tymor hwy."

Byddwn ar agor i geisiadau ddydd Iau **21 Mai**. Gall sefydliadau wneud cais unrhyw bryd cyn dydd **Mawrth 30 Mehefin** 2020.

Dysgwch fwy am sut i wneud cais ar ein tudalen ariannu. Gall eich timau lleol roi cyngor ar yr hyn y gallwn ei gefnogi a sut i wneud cais.

## Ar gyfer beth mae'r arian?

Rydym yn ymwybodol bod llawer o sefydliadau treftadaeth yn wynebu trafferthion ariannol difrifol. Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn hanfodol i ni wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r sector, yn awr ac yn y dyfodol.

Diolch i'r Loteri Genedlaethol, caiff arian o'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chamau brys ar unwaith a helpu sefydliadau i ddechrau meddwl am adferiad.

**Gyda'r grantiau newydd mwy, gall hyn gynnwys:**

- sefydlogi sefydliad neu ased treftadaeth
- diogelu treftadaeth
- ad-drefnu cynlluniau busnes
- cwmpasu costau hanfodol megis diogelwch safle neu gynnal cynefinoedd naturiol
- cynydd gweithgareddau digidol
- profi gweithgareddau newydd a fydd yn helpu gydag adferiad
- adolygu cynlluniau strategol a gweithredu

## Beth yw ein blaenoriaethau?

**Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer sefydliadau sydd:**

- â mynediad cyfyngedig neu ddim o gwbl at ffynonellau eraill o gymorth
- eisoes wedi rhoi cynnig ar opsiynau eraill
- â chronfeydd cyfyngedig wrth gefn
- yn gwneud cyfraniad eithriadol i'w hardal leol a chymunedau
- Dysgwch fwy am bwy all wneud cais

Find out more about who can apply and read our FAQs.

# Cymorth pellach

Dim ond rhan o becyn o gymorth a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yw'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. Rydym yn ei gynnig i helpu brwydro yn erbyn effaith coronafeirws (COVID-19), cefnogi pobl, prosiectau a chymunedau.

Mae'r pecyn yn cynnwys ein cynllun Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, cymorth ar gyfer 2,500 o brosiectau sy'n cael eu datblygu a'u cyflawni lle mae ein hymrwymiadau buddsoddi yn fwy na £1bn, a'n rhwydwaith cofrestr o ymgynghorwyr gwasanaethau cymorth (ROSS).

Yn ychwanegol:

Expand All accordions class="field--name-field-item-title accordion-title">

Rhaglenni datblygu Menter a Chymorth Busnes

Rydym wedi dyfarnu ychydig dros £4miliwn i raglenni hyfforddiant datblygu Menter a Chymorth Busnes.

Ariannwyd chwe phrosiect partneriaeth. Dyfarnwyd cyllid ychwanegol i gefnogi rhaglen o gymorth busnes mwy uniongyrchol mewn ymateb i'r pandemig. Y rhain yw:

Dwy raglen datblygu menter ar gyfer y DU gyfan, dan arweiniad:

- Social Enterprise Academy
- School for Social Entrepreneurs


Pedair rhaglen cymorth busnes i'r DU gyfan, dan arweiniad:

- Cause4 - England
- Museums Galleries Scotland – Yr Alban
- Thrive Audience Development – Gogledd Iwerddon
- Heritage Alliance

Caiff y prosiectau eu cyflwyno'n ddiweddarach yn 2020. Byddwn yn rhannu diweddariadau ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol cyn gynted ag y gallwn.

Expand All accordions class="field--name-field-item-title accordion-title"> Benthyciadau a mwy

Bydd gennym fwy o ddewisiadau cymorth, gan gynnwys benthyciadau, yn y misoedd i ddod, i helpu rhagor o sefydliadau treftadaeth i adfer ar ôl yr argyfwng.



## ddordeb hefyd mewn ...





[Heritage Emergency Fund FAQs]